TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Datganiad Caethwasiaeth Fodern

Datganiad Ysgrifenedig ar Gaethwasiaeth Fodern
Y Flwyddyn Ariannol o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019

Pwrpas

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i Trafnidiaeth Cymru ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Y Sefydliad

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni dielw sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono. Bydd hefyd yn helpu i newid y ffordd y byddwn yn deall, yn cynllunio, yn defnyddio ac yn buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn hanfodol i gyflawni themâu allweddol Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'u nodi yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am gaffael a darparu trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru a'r Gororau drwy drefniadau cytundebol â Phartner Datblygu a Gweithredu yn ogystal â Phartneriaid Cyflenwi Seilwaith.

Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Trafnidiaeth Cymru yw Canolfan QED, Y Brif Rodfa, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR. Ar hyn o bryd, mae'r staff yn South Gate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW. Y bwriad yw cyd-leoli Trafnidiaeth Cymru gyda'r Partner Datblygu a Gweithredu a sefydliadau eraill cysylltiedig mewn swyddfeydd newydd ym Mhontypridd ar ddiwedd 2020 ac mewn swyddfa/swyddfeydd ychwanegol yng ngogledd Cymru. Mae lleoliadau ar gyfer eu cyd-leoli dros dro wrthi'n cael eu hystyried.

Diffiniadau

Mae Trafnidiaeth Cymru yn credu bod caethwasiaeth fodern yn cwmpasu'r canlynol:

- Masnachu pobl

- Gwaith gorfodol, drwy fygythiad meddyliol neu gorfforol
- Bod ym mherchnogaeth neu reolaeth cyflogwr drwy gam-drin meddyliol neu gorfforol, neu fygythiad o gam-drin
- Dad-ddyneiddio pobl, eu trin fel nwyddau neu eu prynu a'u gwerthu fel eiddo
- Cyfyngu ar rywun yn gorfforol neu osod cyfyngiadau ar ryddid pobl i symud.

Ymrwymiad

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac mae wedi ymrwymo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Trafnidiaeth Cymru yn deall bod hyn yn gofyn am adolygiad parhaus o arferion mewn perthynas â'i weithwyr a'i gadwyni cyflenwi.

Nid fydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnal busnes ag unrhyw sefydliad arall, yn y Deyrnas Unedig na thramor, sy'n cefnogi caethwasiaeth, caethwasanaeth neu lafur gorfodol neu anochel ac yn gwybod hynny, neu y canfyddir ei fod yn gysylltiedig â hynny.

Ni fydd unrhyw lafur a ddarperir i Trafnidiaeth Cymru wrth iddo ddarparu ei wasanaethau ei hun yn cael ei gyflawni gan gaethwasiaeth na masnachu pobl. Mae Trafnidiaeth Cymru yn glynu'n gaeth wrth y safonau sylfaenol sy'n ofynnol mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol a, mewn llawer o achosion, mae'n mynd y tu hwnt i'r safonau sylfaenol hynny mewn perthynas â'i weithwyr.

Polisïau

Mae gan Trafnidiaeth Cymru bolisïau ar y canlynol, neu mae wrthi'n eu datblygu:

- Cyflogaeth Foesegol
- Chwythu'r Chwiban
- Cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr
- Recriwtio
- Caffael

Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa: Canolfan QED, Prif Heol, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.
Trafnidiaeth Cymru rhif cwmni: 09476013. Cwmni cyfyngedig drwy warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Registered office address: QED Centre, Main Avenue, Treforest Industrial Estate, Pontypridd CF37 5YR.
Transport for Wales company number: 09476013. A company limited by guarantee. Registered in Wales.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i ddefnyddio Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (y Cod Ymarfer) ac mae'n mynnu bod cyflenwyr sy'n strategol bwysig ynghyd â'u cadwyni cyflenwi yn ei ddefnyddio hefyd. Caiff holl gyflenwyr eraill Trafnidiaeth Cymru eu hannog i ddefnyddio'r Cod Ymarfer. Hefyd, mae Trafnidiaeth Cymru yn cymryd camau i ddod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig, yn unol â'r Cod Ymarfer, ac mae'n cymryd camau gweithredu i ddileu'r defnydd amhriodol o gontractau dim oriau. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i ddileu arferion hunangyflogaeth ffug, contractau ymbarél a chosbrestrau undebau, yn unol â'r Cod Ymarfer.

Cadwyni Cyflenwi

Ar hyn o bryd, mae prif gadwyni cyflenwi Trafnidiaeth Cymru yn ymwneud â darparu'r gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau ac â'r gwaith peirianneg / adeiladu i ddatblygu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy. Mae cyflenwyr haen gyntaf Trafnidiaeth Cymru yn fasnachwyr cyfryngol felly mae ganddynt gysylltiadau cytundebol pellach â chyflenwyr haen isaf.

I helpu i fonitro'r gwaith o fabwysiadu'r Cod Ymarfer ac i fynd i'r afael yn benodol â materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern, mae Trafnidiaeth Cymru wedi penodi sefydliad i weithredu fel Hyrwyddwr Cyflenwyr. Bydd yn darparu gwasanaeth cyfrinachol a diduedd er mwyn helpu i ddatrys anghydfodau yn y gadwyn gyflenwi ac i ganfod unrhyw achosion posibl o dorri'r Cod Ymddygiad. Bydd y swyddogaeth hon yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd.

Peryglon Posibl

Mae Trafnidiaeth Cymru yn credu bod y risgiau mwyaf o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl yn y cadwyni cyflenwi haen isaf. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys gwasanaethau rheoli cyfleusterau a chynnyrch sydd wedi'i gaffael drwy ddefnyddio llafur mewn gwlad lle nad oes llawer yn cael ei wneud i amddiffyn hawliau dynol.

Yn gyffredinol, nid yw Trafnidiaeth Cymru yn credu ei fod yn agored iawn i'r risg o gaethwasiaeth/masnachu pobl. Er hynny, mae wedi cymryd camau i sicrhau nad yw arferion o'r fath yn digwydd yn ei fusnes nac ym musnes unrhyw sefydliad sy'n cyflenwi nwyddau a/neu wasanaethau. Bydd y gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr yn chwarae rhan fawr wrth asesu risgiau a blaenoriaethu camau gweithredu.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Camau a Gymerwyd ym mis Ebrill 2018

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal prosesau diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cynnal adolygiad o drefniadau rheoli ei gyflenwyr, i sicrhau nad yw caethwasiaeth a/neu fasnachu pobl yn digwydd yn ei sefydliad nac yn ei gadwyni cyflenwi.

Hyd y gŵyr, nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud unrhyw fusnes â sefydliad arall y gwelwyd ei fod yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern.

Yn unol ag adran 54(4) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cymryd y camau canlynol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd:

- Sefydlu Panel Cynghori ar Gaffael Moesegol a Chynaliadwy i roi cyngor i Trafnidiaeth Cymru ar y camau y mae arno angen eu cymryd wrth gaffael y contractau seilwaith a'r gwasanaethau rheilffyrdd;
- Cyfleu'r polisi a'r dull o gaffael yn foesegol ac yn gynaliadwy yn ystod y broses ymgeisio ac yn yr holl ddigwyddiadau i gyflenwyr;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Partner Datblygu a Gweithredu a'r Partneriaid Cyflenwi Seilwaith ymrwymo i'r Cod Ymddygiad ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, yn ogystal â'u cadwyn gyflenwi;
- Sicrhau bod gofynion caffael moesegol a chynaliadwy yn cael eu cynnwys mewn trefniadau rheoli contractau a dogfennau cysylltiedig;
- Penodi gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr i asesu'r risgiau o ran gwariant a chadwyni cyflenwi, gan gynnwys archwiliadau / adolygiadau o gyflenwyr yng nghyswllt cynaliadwyedd a moeseg;
- Sicrhau bod archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cynnal ar gyflenwyr newydd a bod cydymffurfiad â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cael ei fonitro drwy gofrestru ar y gronfa ddata Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi.

Asesiad o Effeithiolrwydd

Mae dull Trafnidiaeth Cymru o sicrhau caffael moesegol a chynaliadwy wedi lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi, ond nid yw'n gallu cael gwared â nhw.

Yn ystod 2018, bydd y contract gwasanaethau rheilffyrdd newydd yn dechrau a bydd prosiectau seilwaith yn cael eu datblygu a'u cyflenwi. Bydd y gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr yn allweddol wrth sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn y gadwyn gyflenwi.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi sicrhau y bydd materion a ddaw i law'r Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd yn cael eu trafod ar lefel y Bwrdd.

Cynllun Gweithredu i'r Dyfodol

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr a'i brif gontractwyr i ddogfennu eu cadwyni cyflenwi er mwyn canfod unrhyw feysydd risg a mynd i'r afael â nhw.

Bydd gan y Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd gyfrifoldeb cyffredinol dros y maes hwn ac, ar y cyd â'r gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr, bydd camau'n cael eu cymryd i wneud y canlynol:

- Adolygu contractau cyflenwyr i gynnwys pwerau terfynu os yw cyflenwr yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern, neu fod amheuon ei fod yn gysylltiedig â hynny;
- Rhoi mesurau ar waith i ganfod ac asesu risgiau posibl yn ei gadwyni cyflenwi;
- Cynnal asesiad o effeithiau ei wasanaethau ar achosion posibl o gaethwasiaeth fodern;
- Llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r risg o gaethwasiaeth fodern;
- Cymryd camau i gyflwyno polisi o ddim goddefgarwch ar gyfer caethwasiaeth fodern;
- Darparu hyfforddiant i staff ar gaethwasiaeth fodern;
- Creu polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol a chyfleu'r polisi ar draws Trafnidiaeth Cymru a'i gadwyn gyflenwi;
- Adolygu'r polisi yn flynyddol a monitro ei effeithiolrwydd;

- Llunio polisi ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban er mwyn rhoi'r grym i staff godi amheuon am arferion cyflogaeth anfoesol neu anghyfreithlon, yn ogystal â rhoi dyletswydd ar staff i roi gwybod am weithgarwch troseddol sy'n digwydd yn Trafnidiaeth Cymru a'i gadwyni cyflenwi;
- Cyfleu'r Polisi Chwythu'r Chwiban ar draws Trafnidiaeth Cymru a'i gadwyn gyflenwi;
- Adolygu'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn flynyddol a monitro ei effeithiolrwydd;
- Darparu dull sy'n caniatáu i bobl y tu allan i Trafnidiaeth Cymru godi amheuon am arferion cyflogaeth anfoesol neu anghyfreithlon;
- Sicrhau bod y staff sy'n gysylltiedig â phrynu/caffael a recriwtio a diswyddo gweithwyr yn cael hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol;
- Sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses caffael;
- Sicrhau nad yw'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n cyflenwyr yn cyfrannu at ddefnyddio arferion cyflogaeth anfoesol neu anghyfreithlon yn y gadwyn gyflenwi;
- Sicrhau nad oes gormod o bwysau o ran amser a chostau yn cael ei roi ar unrhyw un o'n cyflenwyr os yw hyn yn debygol o arwain at drin gweithwyr mewn ffordd anfoesol;
- Sicrhau bod ein cyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon;
- Gofyn i'n cyflenwyr egluro'r effaith y gall costau isel ei chael ar eu gweithwyr bob tro y ceir tendr neu ddyfynbrisiau anghyffredin o isel;
- Asesu gwariant i ganfod ac asesu materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern, camddefnyddio hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesol;
- Cynnal adolygiadau rheolaidd ar wariant yn ogystal â chynnal asesiad risg ar y canfyddiadau er mwyn nodi cynnyrch a / neu wasanaethau lle mae risg o gaethwasiaeth fodern a / neu arferion cyflogaeth anfoesol neu anghyfreithlon yn y DU a thramor;
- Ymchwilio i unrhyw gyflenwr y nodwyd ei fod yn risg uchel drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gweithwyr pan fo hynny'n bosibl;

- Gweithio gyda chyflenwyr i gywiro unrhyw faterion sy'n ymwneud ag arferion cyflogaeth anfoesol neu anghyfreithlon; a
- Monitro arferion cyflogaeth cyflenwyr risg uchel, gan sicrhau bod hynny'n eitem safonol ar yr agenda mewn adolygiadau / cyfarfodydd rheoli contractau.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol, ar y cyd â gwasanaeth yr Hyrwyddwr Cyflenwyr, i fesur ei effeithiolrwydd o ran sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn y sefydliad nac yn ei gadwyni cyflenwi.

Swyddog Cydymffurfiaeth yng nghyswllt Caethwasiaeth

Bydd y Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd, ar y cyd â'r gwasanaeth Hyrwyddwr Cyflenwyr, yn gweithredu fel y Swyddog Cydymffurfiaeth yng nghyswllt Caethwasiaeth. Dylid rhoi gwybod iddo am yr holl bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern er mwyn iddo gymryd y camau perthnasol.
Caiff y datganiad ei wneud yn unol ag Adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn ariannol.

Gareth Morgan
Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd
Trafnidiaeth Cymru
Medi 2018